**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 5 Hydref 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd W Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Hughes Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd L A Tomkinson Y Cynghorydd R Williams

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd S Rees Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd A Dennis Y Cynghorydd S Emanuel

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr G Howard, Uwch Swyddog Cynllunio

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd M Norris

## 96 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D Grehan ac M Powell.

## 97 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

## 98 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol

eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**99 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**100 COFNODION 17.08.23**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 17.08.23 yn rhai cywir.

**101 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**102 CAIS RHIF: 23/0514**

**Datblygiad preswyl o 22 o fflatiau ag un a dwy ystafell wely, gyda gwaith tirlunio, gwaith trin ffiniau a man parcio cysylltiedig. SAFLE'R HEN GLWB CYMDEITHAS Y LLYNGES FRENHINOL, 233 STRYD Y LLYS, TONYPANDY, CF40 2RF**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr N Ahmed (Ymgeisydd)
- Mr A Silver (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr N Ahmed, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Cyflwynodd yr Uwch Gynllunydd y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn y byddai'r datblygiad yn arwain at or-ddatblygiad ac yn gynamserol, ac roedd ganddyn nhw bryderon ynglŷn â diffyg lleoedd parcio ac amwynder.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros ddod i benderfyniad o'r fath.

**103 CAIS RHIF: 23/0727**

**Newid defnydd yr ardal o gymysgedd o ardd ac amaethyddiaeth i ardal ceffylau. Cynnig i newid lefel y ddaear a deunydd i ddarparu draenio rhydd mewn cae hyfforddi ceffylau sydd i'w weld ar y cynlluniau. FFERM PANTGLAS, CAE PANTGLAS, YNYSMAERDY, PONT-Y-CLUN, CF72 8GX**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr R Pettit (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd yr Uwch Gynllunydd y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**104 CAIS RHIF: 23/0350**

**Adeiladu garej ar wahân a man parcio preifat cysylltiedig (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 07/07/23). TIR I'R GORLLEWIN O WILLOWS FARM, FFORDD Y RHIGOS, RHIGOS, ABERDÂR, CF44 9UD**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**105 CAIS RHIF: 23/0623**

**Newid defnydd o siop (A1) i fwyty gyda chyfleusterau gwerthu bwyd poeth i'w fwyta oddi ar y safle (A3) gan gynnwys gosod ffliw awyru ac offer echdynnu. 123 CILGANT Y GWEUNDIR, BEDDAU**

Cyfeiriodd y Pennaeth Materion Cynllunio at lythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan Aelod Lleol sydd ddim yn rhan o'r Pwyllgor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo, yn mynegi ei bryderon ynglŷn â'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu ar amod diwygiad i Amod 5 yn cyfyngu'r oriau i 10pm yn hytrach na'r amser sydd wedi'i awgrymu, sef 9pm. Dyma'r amod diwygiedig:

Bydd oriau gweithredu'r busnes a ganiateir fel a ganlyn: Dydd Llun i ddydd Sul: 09:00–22:00

Rheswm: Er mwyn sicrhau fod y sŵn o'r datblygiad yma ddim yn peri niwsans i ddeiliaid eiddo preswyl cyfagos yn unol â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**106 CAIS RHIF: 22/1261**

**Newid defnydd i droi sied gwartheg yn uned breswyl. (Daeth Adroddiad Clwydo Ystlumod Rhagarweiniol a phob Arolwg i law ar 17/08/22) GORLLEWIN CAERLAN, STRYD YR YSGOL, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8EN**

Nododd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyrau 'hwyr' yn cefnogi'r cais a ddaeth i law gan Sarah Jane Davies (Aelod Lleol sydd ddim yn rhan o'r Pwyllgor) a'r asiant cynllunio.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cais, yn groes i argymhellion Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am eu bod nhw o'r farn y byddai ailddefnyddio'r eiddo'n well er gwaetha'r diffyg amwynder.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros ddod i benderfyniad o'r fath.

**107 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 28/08/2023 – 22/09/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm**

**Y Cynghorydd W Lewis**
**Cadeirydd.**